

## **Asfotase alfa ar gyfer trin hypophosphatasia sy'n dechrau mewn plant**

2 Awst 2017

Mae asfotase alfa (Strensiq) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer hypophosphatasia sy'n dechrau mewn plant i bobl:

- sy'n bodloni meini prawf penodol ar gyfer y driniaeth (a amlinellir yn y [trefniant mynediad a reolir](#)) ac
- os ydyn nhw (neu eu rhieni neu ofalwyr) yn cytuno i delerau ac amodau y trefniant hwn, megis mynychu clinigau, casglu data ac asesu pa mor lwyddiannus yw'r driniaeth.

Os nad ydych yn gymwys i gael asfotase alfa, ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Bydd NICE yn ystyried y wybodaeth am ba mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio pan gaiff y canllawiau ar asfotase alfa eu hadolygu. Os na fydd NICE yn argymhell asfotase alfa ar gyfer cyllid y GIG pan gaiff adolygiad o'r canllawiau ei gyhoeddi, ni fydd ar gael i unrhyw glaf mwyach.

### ***A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?***

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

## **Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## ***Gwybodaeth a chymorth***

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [\(CLIMB\) Plant sy'n byw gydag Anhwylderau Metabolig Etifeddol](#), 0845 241 2173
- [Cynghrair Geneteg y DU](#), 0207 704 3141
- [Brittle Bone Society](#), 01382 204 446

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2602-2